



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Gynradd Llanybydder
Llanybydder
Sir Gaerfyrddin
SA40 9RP**

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2013

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**



Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg)

© **Hawlfraint y Goron 2013: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

Dyddiad cyhoeddi: 24/07/2013

Cyd-destun

Mae'r ysgol wedi'i lleoli ar safle braf ym mhentref Llanybydder, tua saith milltir i'r de orllewin o Lanbedr Pont Steffan. Mae'r ardal yn un wledig a disgrifia'r ysgol yr ardal y daw'r plant ohoni fel un sydd, ar y cyfan, yn weddol ffyniannus. Yn ôl yr ysgol, daw'r disgyblion o gefndir cymdeithasol cymysg. Mae'r ysgol yn gwasanaethu ardal Llanybydder ac ardaloedd cyfagos. Daw o dan ofal awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin.

Ar hyn o bryd mae 89 o ddisgyblion ar y gofrestr sy'n cynnwys 14 oed meithrin llawn amser. Mae'r disgyblion wedi eu rhannu o fewn pedwar dosbarth. Derbynnir disgyblion yn llawn amser i'r ysgol yn ystod tymor eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae staff yr ysgol yn cynnwys pennaeth a phedair athrawes llawn amser.

Cymraeg yw prif gyfrwng iaith yr ysgol ac anelir at sicrhau bod y disgyblion yn gwbl ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i'r sector uwchradd. Tua 49% o'r disgyblion ddaw o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Mae 10% o'r disgyblion sydd yn yr ysgol ar hyn o bryd o gefndir ethnig lleiafrifol.

Mae oddeutu 16% o'r disgyblion â'r hawl i dderbyn prydu bwyd ysgol am ddim sydd ychydig yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae tua 36 o'r disgyblion (40%) ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol ac mae hyn yn sylweddol uwch na'r ffigwr cenedlaethol o 21.2%. Ychydig iawn o'r disgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Chwefror 2008. Ers ymddeoliad y pennaeth blaenorol mae'r ysgol yng ngofal pennaeth corfforaethol. Ers mis Chwefror 2013 penodwyd pennaeth dros dro o fewn yr ysgol i weithio gyda'r pennaeth corfforaethol.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Llanybydder yn 2012-2013 yw £3,961. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yw £25,997 a'r lleiafswm yw £2,878. Mae Ysgol Gynradd Llanybydder yn safle 36ain o'r 108 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Da
Rhagolygon gwella'r ysgol	Da

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- bod y disgyblion yn gwneud cynnydd cyffredinol dda yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- bod y rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd arbennig o dda yn y Gymraeg;
- bod safon yr addysgu yn gyson dda;
- bod yr ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau sy'n ennyn diddordeb y disgyblion; a
- bod strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi eu sefydlu'n gadarn iawn.

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod gan arweinwyr yr ysgol weledigaeth glir ar gyfer y dyfodol;
- bod yr ysgol wedi datblygu trefniadau hunanarfarnu effeithiol sy'n rhoi sylw teilwng i farn rhieni a disgyblion;
- bod y cynllun datblygu ysgol yn rhoi sylw i flaenoriaethau pwysicaf yr ysgol ac yn canolbwyntio'n briodol ar godi safonau;
- bod holl aelodau staff yr ysgol yn cydweithio'n effeithiol fel tîm; a
- bod y llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol a'i pherfformiad yn dda iawn.

Argymhellion

- A1 Codi safonau llafar Cymraeg yng nghyfnod allweddol 2
- A2 Gwella cyflwyniad a chywirdeb gwaith yng nghyfnod allweddol 2
- A3 Sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n fwy estynedig yn y ddwy iaith yng nghyfnod allweddol 2
- A4 Sicrhau bod disgwyliadau uchel a her briodol ar gyfer disgyblion o allu uwch
- A5 Sicrhau sefydlogrwydd yn strwythur arweinyddiaeth yr ysgol

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd Ysgol Llanybydder yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Mae medrau sylfaenol y mwyafrif o'r disgyblion, wrth ddechrau yn yr ysgol, islaw'r cyfartaledd, yn enwedig mewn sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg a datblygiad mathemateg. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen ym mhob un o'r meysydd dysgu a chynnydd arbennig o dda yn y Gymraeg. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r mwyafrif yn siarad yn weddol gywir yn y Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol, ond heb fod yn estynedig.

Mae'r gwaith cyfredol yn llyfrau'r disgyblion a'r hyn a welwyd o fewn y dosbarthiadau yn ystod arsylwadau, yn dangos cynnydd amlwg mewn safonau medrau yn gyffredinol ar draws yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio eu medrau yn briodol ar draws y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwrando'n astud yn ystod y gwersi. Maent yn ymateb i gwestiynu'r athrawon yn dda ar lafar ac maent yn awyddus i gyfrannu i drafodaethau dosbarth ac o fewn eu grwpiau trafod. Er hynny, mae yna dueddiad i fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 ddefnyddio'r Saesneg wrth drafod eu gwaith gyda'i gilydd.

Mae medrau darllen disgyblion yn dda ar y cyfan. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn darllen llyfrau gyda mynegiant gan ddefnyddio ystod o strategaethau yn effeithiol wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae gan lawer o ddisgyblion fedrau darllen cadarn. Maent yn gallu trafod hoff awduron ac maent yn defnyddio llyfrau gwybodaeth yn dda ar gyfer ymchwilio i ffeithiau i'w defnyddio mewn gwaith trawsgwricwlaidd.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n annibynnol gan ddechrau amrywio eu brawddegau a defnyddio atalnodi sylfaenol yn gywir. Mae medrau ysgrifennu disgyblion cyfnod allweddol 2 yn dda ar y cyfan ac yn datblygu'n briodol. Mae llawer ohonynt yn ysgrifennu'n dda at amrywiaeth o ddibenion ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau ysgrifennu yn briodol mewn pynciau eraill. Fodd bynnag, nid yw'r mwyafrif o'r disgyblion yn ysgrifennu'n ddigon estynedig yn y ddwy iaith.

Mae mwyafrif o'r disgyblion yn defnyddio eu medrau meddwl a'u medrau ymchwilio yn bwrpasol yn eu gwaith ar draws y pynciau. Mae'r holl ddisgyblion yn cydweithio'n dda â'i gilydd ac yn ymateb yn frwdfrydig i'r tasgau a gyflwynir iddynt.

Mae disgyblion yn dechrau'n dda o ran dysgu a defnyddio'r Gymraeg yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, nid yw eu medrau siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn datblygu'n ddigon cyson wrth iddynt symud trwy gyfnod allweddol 2. Mae ychydig o ddisgyblion yn ddi-hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i gyd-destunau cyfarwydd. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni eu targedau.

Yn gyffredinol, amrywiol yw safon taclusrwydd, llawysgrifen a chywirdeb disgyblion yng ngyfnod allweddol 2.

Gan mai nifer cymharol fach o ddisgyblion sydd yn yr ysgol, rhaid trin data am berfformiad dros amser yn ofalus gan fod canlyniadau un plentyn yn cyfri am ganran uchel o'r garfan ymhob blwyddyn.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae cyflawniadau ar y deilliant disgwylidig (deilliant 5) mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol ac mewn mathemateg yn cymharu'n ffatriol â chyfartaleddau ysgolion y teulu a Chymru ag yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i brydau ysgol am ddim yn y ddau faes dysgu hyn. Nid yw cyflawniadau mewn sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg a'r dangosydd pwnc craidd yn cymharu cystal, ac yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i brydau ysgol am ddim.

Yn gyffredinol, mae perfformiad yr ysgol ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 ar y lefel ddisgwylidig wedi codi ymhob pwnc craidd (Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth) ers 2010. Mae hyn wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg ar sail cinio am ddim a hefyd yn uwch na chyfartaledd ysgolion y teulu. Serch hynny, mae cyflawniad y disgyblion ar y lefel uwch ymhob pwnc craidd wedi bod yn is nag ysgolion tebyg dros gyfnod helaeth o amser. Ni chyflawnodd yr un disgybl lefel 5 mewn pwnc craidd (Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth) yn y tair blynedd diwethaf ac eithrio'r Saesneg yn 2011.

Yn gyffredinol, nid oes bwlch arwyddocaol rhwng cyflawniadau'r bechgyn a'r merched, ac eithrio ar ddeilliant 6 ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen mewn sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu a mathemateg.

Lles: Da

Mae pob disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, ffitrwydd a bwyta'n iach ac maent yn cyflawni'n gyson dda yn eu datblygiad personol a chymdeithasol. Mae bron pob un disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os oes rhywbeth yn eu poeni. Maent yn mwynhau eu gwersi ac yn manteisio ar gyfleoedd i leisio barnau synhwyrol am yr hyn y maent yn ei ddysgu. Mae ymddygiad disgyblion yn dda ar draws yr ysgol ac mae'r rhan fwyaf yn gwrtais wrth ymateb i oedolion a chyfoedion. Mae mwyafrif y disgyblion yn cyfrannu'n dda yn y gwersi.

Mae lefelau presenoldeb yr ysgol yn ei gosod yr yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg o ran cyfran disgyblion â hawl i ginio am ddim. Mae hefyd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae'r cyngor ysgol a'r phwyllgor eco wedi'u sefydlu yn yr ysgol ac mae'r aelodau wedi cwrdd i ethol swyddogion ac i gynnig syniadau. Mae'r disgyblion yn dechrau lleisio barn a chymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â'u hysgol.

Trwy weithgareddau yn yr ysgol, y gymuned a'r profiadau allgyrsiol, mae medrau cymdeithasol a medrau bywyd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn mynd ati'n hyderus i gymryd cyfrifoldeb a

gwneud penderfyniadau sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu. Nid yw hyn wedi ei ddatblygu yn digon penodol ar draws cyfnod allweddol 2.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Da
--	-----------

Profiadau dysgu: Da

Darperir ystod addas o brofiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb ac yn ysgogi y rhan fwyaf o'r disgyblion ac yn cyfarfod â gofynion y cwricwlwm cenedlaethol a'r Cyfnod Sylfaen. Mae cynllunio ysgol gyfan yn sicrhau bod y disgyblion, yn gyffredinol, yn cael eu sbarduno a'u herio'n bwrpasol gan weithgareddau sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Mae datblygu medrau disgyblion yn cael lle amlwg o fewn y cynllunio ond nid yw'r cynllunio ar gyfer datblygu'r Gymraeg llafar yng nghyfnod allweddol 2 wedi datblygu'n briodol.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd priodol i'r disgyblion ddysgu am ddiwylliant eu hardal leol a'r dimensiwn Cymreig drwy bynciau celf, hanes, daearyddiaeth a cherddoriaeth. Enghreifftiau o rhain yw hanes 'Merched Beca' ac ardal leol Llanybydder a Llanbed.

Mae addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang yn datblygu yn briodol yn yr ysgol. Mae gan yr ysgol ystod o drefniadau effeithiol i leihau gwastraff ac ailgylchu. Trwy astudiaeth o wledydd eraill, a thrwy'r cyngor eco, mae'r ysgol yn rhoi cyfleoedd priodol i ddisgyblion gasglu at elusennau, ailgylchu, defnyddio llai o ynni, a phrynu nwyddau masnach deg.

Addysgu: Da

Mae gan athrawon wybodaeth bynciol gadarn a cheir perthynas waith addas rhwng athrawon a disgyblion. Mae'r addysgu'n gyson dda a defnyddia'r athrawon amrywiaeth o ddulliau dysgu i ennyn cyfranogiad a diddordeb y disgyblion. Mae nod y wers yn eglur ac mae'r disgyblion yn cymryd rhan weithredol wrth osod eu meini prawf llwyddiant eu hunain. Mae hon yn nodwedd gref yn yr addysgu. Mae'r athrawon yn holi'n dreiddgar ac yn ymyrryd yn briodol er mwyn ysgogi a herio'r disgyblion i gyflawni'n well. Mae'r gwersi wedi eu cynllunio'n briodol, er nad yw'r disgygliadau bob amser yn ddigon heriol i'r plant uwch eu gallu.

Defnyddia'r athrawon ystod o adnoddau yn bwrpasol a llwyddiannus i gefnogi dysgu ac addysgu. Mae cynorthwyr dosbarth yn cyfrannu'n sylweddol at ansawdd dysgu'r disgyblion ac yn rhoi cymorth priodol i ddisgyblion ble maent ei angen i gwblhau eu tasgau. Mae'r athrawon a'r cynorthwyr yn cydweithio'n effeithiol fel tîm.

Mae gweithdrefnau asesu priodol ar waith gan gynnwys system i olrhain cynnydd disgyblion trwy'r ysgol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd addas o'r data i fonitro cynnydd y disgyblion ac i ddarparu rhaglenni addysgol ychwanegol yn ôl yr angen. Mae'r system o lefelu a chymedroli gwaith disgyblion o fewn yr ysgol yn datblygu dealltwriaeth yr athrawon o lefelau'r cwricwlwm cenedlaethol.

Mae ystod o strategaethau asesu effeithiol ar gyfer dysgu wedi ei sefydlu'n gadarn iawn ar draws yr ysgol sydd yn cynnig cyfleoedd da i'r disgyblion asesu eu gwaith a gwaith eu cyfoedion. Mae athrawon yn marcio gwaith y disgyblion yn rheolaidd ac yn cynnig sylwadau adeiladol. Mae hyn yn cynorthwyo disgyblion i wybod sut i wella safon eu gwaith.

Mae'r rhieni yn derbyn gwybodaeth glir ar gynnydd a chyflawniad eu plant drwy adroddiadau a chyfarfodydd rheolaidd.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i annog disgyblion i fod yn iach ac mae pob un disgybl yn teimlo bod yr ysgol yn eu haddysgu ynghylch sut i fyw yn iach. Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar sy'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn llwyddiannus. Mae systemau gwobrwyo ar gyfer ymddygiad da a hefyd er mwyn gwella hunan-barch plant at eu gwaith.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn cwrdd â gofynion statudol ac nid ydynt yn destun pryder. Mae arweiniad clir i bob aelod o staff ac maent yn ymwybodol o'r gofynion.

Mae aelodau'r staff yn gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol i gefnogi disgyblion yn ôl yr angen.

Mae trefniadau'r ysgol i adnabod anghenion dysgu ychwanegol yn briodol ac yn cydymffurfio â'r Côt Ymarfer. Mae athrawon yn adnabod anghenion gwahanol ddisgyblion yn fuan ac yn gweithredu'n brydlon a phwrpasol. Mae'r cynlluniau addysg unigol yn nodi targedau clir ac yn amlinellu gweithgareddau penodol ar gyfer sicrhau cynnydd. Gwneir defnydd da o gynorthwywyr dysgu i gefnogi'r addysgu.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol lle caiff disgyblion eu trin yn gyfartal yn holl weithgareddau'r ysgol. Mae trefniadau priodol yn eu lle i sicrhau mynediad i'r safle i blant neu oedolion anabl. Mae polisïau, cynlluniau a gweithdrefnau yr ysgol yn hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth cymdeithasol.

Mae digon o adnoddau dysgu i sicrhau bod y disgyblion yn cael profiadau dysgu da. Mae'r ystafelloedd dosbarth yn lliwgar a deniadol gydag amrywiaeth o arddangosfeydd sy'n cynnwys gwaith y disgyblion. Mae'r neuadd bwrpasol yn cael ei defnyddio'n effeithiol ar gyfer gwasanaethau, gweini cinio a gweithgareddau addysg gorfforol. Er bod yr ardal allanol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn ddeniadol ac yn cael ei defnyddio'n greadigol i hybu dysgu, nid yw wedi ei threfnu i fod yn estyniad naturiol o'r dosbarth.

Mae'r adeilad a'r safle yn cael eu cynnal yn dda.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?
--

Da

Arweinyddiaeth: Digonol

Yn dilyn cyfnod ansefydlog, mae'r ysgol yn cael ei harwain ar hyn o bryd gan bennaeth corfforaethol, sy'n bennaeth ar ysgol arall, a phennaeth dros dro. Mae gweledigaeth y ddau yn glir ac yn cael ei chrisialu yn arwyddair yr ysgol, sef 'Safonau uchel, Sylfaen Gadarn'. Mae staff, llywodraethwyr a rhieni'n rhannu'r weledigaeth hon.

Mae'r strwythur rheolaethol yn dyrannu cyfrifoldebau'n glir, ac mae'r uwch dîm rheoli yn llwyddo i sicrhau rhediad esmwyth yr ysgol. Mae effaith y trefniadau cymharol newydd hyn i'w gweld ar les disgyblion, yn arbennig ym maes presenoldeb ac ymddygiad. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fesur effaith y datblygiadau ar safonau a chyflawniadau disgyblion.

Nid yw rolau'r cydlynwyr pwnc wedi datblygu'n briodol ar hyn o bryd. Serch hynny, mae pob aelod o staff yn cydweithio'n dda ac yn cyfrannu'n adeiladol at drafodaethau cynllun datblygu'r ysgol, y ddarpariaeth a safonau disgyblion yn wythnosol mewn cyfarfodydd staff. Mae'r gwaith hwn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth ar draws yr ysgol.

Mae'r llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn dda iawn fel sefydliad ac yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Maent yn gwybod am berfformiad yr ysgol o gymharu ag ysgolion eraill ac maent yn herio'r ysgol yn effeithiol. Mae eu disgwyliadau'n uchel.

Mae'r ysgol yn ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn briodol. Mae medrau llythrennedd a rhifedd yn cael sylw da mewn gwersi. Mae'r Cyfnod Sylfaen ac asesu ar gyfer dysgu wedi'u sefydlu'n gadarn ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau gwaith disgyblion.

Gwella ansawdd: Da

Mae'r ysgol wedi datblygu proses hunanarfarnu effeithiol. Mae arweinwyr yn monitro safonau a'r ddarpariaeth yn rheolaidd trwy arsylwi gwersi, a chraffu ar waith disgyblion a chynlluniau gwaith yr athrawon. Mae'r adroddiadau sy'n deillio o'r gweithgareddau hyn yn ddadansoddol ac yn canolbwyntio'n addas ar ddeilliannau disgyblion. Mae'r ysgol yn rhoi sylw teilwng i farn rhieni a disgyblion drwy holiaduron. Mae arweinwyr ac athrawon yn cofnodi cyflawniadau disgyblion yn effeithiol ac yn dadansoddi data'n briodol i fesur cynnydd.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen fanwl a dadansoddol. Mae staff yr ysgol a'r llywodraethwyr wedi ei thrafod yn drylwyr, a'i hadolygu'n briodol. Er bod yr adroddiad hunanarfarnu a'r cynllun datblygu ysgol yn ymdrin â'r un blaenoriaethau ar gyfer gwella, nid yw'r cyswllt rhwng y ddwy ddogfen yn bwydo i mewn yn uniongyrchol o'r naill i'r llall yn ddigon clir.

Mae'r cynllun datblygu'n rhoi sylw da i flaenoriaethau pwysicaf yr ysgol yn y tymor byr, a thros gyfnod pellach, ac yn nodi'r camau gweithredu'n effeithiol. Mae'r

arweinwyr yn monitro a gwerthuso cynnydd y blaenoriaethau, ac yn adrodd arnynt ym mhob cyfarfod o'r corff llywodraethol.

Yn ddiweddar, mae athrawon yr ysgol wedi ymweld ag ysgolion eraill i rannu arfer dda ym maes dysgu ac addysgu. Mae'r ysgol hefyd wedi sefydlu cymuned ddysgu broffesiynol gyda thair o ysgolion eraill i gynllunio datblygiad medrau llythrennedd a rhifedd.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Yn gyffredinol, mae perthynas dda rhwng yr ysgol a'r rhieni. Mae'r ysgol wedi cryfhau'r trefniadau cyfathrebu ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion.

Bu cydweithio effeithiol gyda'r awdurdod lleol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf sydd wedi sicrhau datblygiadau cadarnhaol pwysig mewn arweinyddiaeth ac yn y ddarpariaeth. Mae'r ysgol hefyd yn elwa o gefnogaeth gwasanaethau cerdd ac anghenion dysgu'r awdurdod, gan gynnwys cefnogaeth benodol i ddisgyblion nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg adref.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos gydag ysgolion eraill yn y cylch. Serch hynny, nid yw trefniadau cymedroli asesiadau diwedd cyfnod allweddol ar draws ysgolion wedi datblygu'n ddigonol hyd yma. Mae cysylltiadau da gydag ysgolion eraill o fewn yr awdurdod lleol wedi cyfoethogi'r ddarpariaeth. Mae'r bartneriaeth gyda'r cylch meithrin, sydd wedi ei leoli yn yr ysgol, yn dda iawn ac mae'r ddau sefydliad yn elwa o ymweliadau disgyblion a chydweithio rhwng athrawon y ddau sefydliad.

Mae'r cytundeb trosglwyddo gyda'r ysgol uwchradd y mae'r disgyblion yn mynd iddi ar ôl gadael yn effeithiol. Mae cysylltiadau uniongyrchol a rhaglen o ymweliadau paratoi yn sicrhau bod disgyblion hŷn yr ysgol yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Caiff y cwricwlwm ei gyfoethogi'n briodol drwy ymweliadau gan nifer o ymwelwyr sy'n cefnogi'r ddarpariaeth a gwella deilliannau disgyblion. Mae'r ysgol wedi ymgymryd â rhai ymweliadau a theithiau addysgol sy'n cynnig profiadau da i ddisgyblion.

Rheoli adnoddau: Da

Mae digon o staff cymwys yn yr ysgol i ateb gofynion y Cyfnod Sylfaen, y cwricwlwm cenedlaethol ac addysg grefyddol. Manteisir yn briodol ar arbenigedd rhai unigolion i gyfoethogi'r ddarpariaeth mewn rhai meysydd fel cerdd. Mae'r trefniadau ar gyfer sicrhau amser cynllunio, paratoi ac asesu ar gyfer pob athrawes yn effeithiol. Mae'r arfer o gael yr amser hwn ar y cyd yn nodwedd dda sy'n hybu trafodaeth broffesiynol ymhlith y staff.

Mae gofynion statudol ar gyfer rheoli perfformiad yn cael eu hateb. Nid oes trefniant ffurfiol ar gyfer rheoli perfformiad y cynorthwywr dosbarth ond mae cyfarfodydd achlysurol gyda'r pennaeth corfforaethol yn sicrhau y gallant elwa ar gyfleoedd i ddatblygu eu gyrfa. Mae'r athrawon a'r staff cynorthwyol yn elwa ar gyfleoedd i dderbyn hyfforddiant mewn meysydd penodol.

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n dda. Mae'r corff llywodraethol a'r is-bwyllgor cyllid yn cyfarfod yn rheolaidd, ac yn monitro'r gyllideb yn fanwl.

Ar sail hyn, ac oherwydd bod disgyblion yn cyflawni safonau da, mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

Atodiad 1

Sylwadau ar ddata perfformiad

Rhaid bod yn ofalus wrth ymdrin â data mewn ysgolion bach oherwydd carfanau bach o ddisgyblion sy'n cael eu hasesu ar ddiwedd cyfnodau.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae cyflawniadau ar y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol ac mewn mathemateg yn cymharu'n ffafriol â chyfartaleddau ysgolion y teulu a Chymru ag yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i brydau ysgol am ddim yn y ddau faes dysgu hyn. Nid yw cyflawniadau mewn sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg a'r dangosydd pwnc craidd yn cymharu cystal, ac yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i brydau ysgol am ddim.

Roedd canran y disgyblion a gyflawnodd yn uwch na'r disgwyl (deilliant 6) neu uwch mewn medrau iaith a datblygiad personol a chymdeithasol yn uwch na chyfartaledd y teulu a Chymru gyfan. O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd yn uwch na'r disgwyl ymhlith y 25% uchaf mewn medrau iaith a datblygiad personol a chymdeithasol ond ymhlith y 50% isaf mewn datblygiad mathemategol.

Gan mai hon yw'r flwyddyn gyntaf i gyhoeddi data Cyfnod Sylfaen, nid oes gwybodaeth am dueddiadau ar gael.

Yn 2009, 2011 a 2012, llwyddodd pob disgybl ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 i gyrraedd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4 neu uwch) mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad (DPC). Yr un yw'r darlun yn y pynciau unigol. Er hynny, mae perfformiad yr ysgol mewn gwyddoniaeth wedi bod yn uwch na chyfartaleddau ysgolion y teulu am y 5 mlynedd diwethaf. Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol wedi gwella ac yn gyffredinol wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf ymhob maes dysgu o gymharu ag ysgolion o ran hawl i brydau ysgol am ddim, ac eithrio'r Gymraeg yn 2011 lle gosodir yr ysgol yn y 25% i'r 50% isaf.

Ychydig iawn o'r disgyblion sydd yn cyflawni lefel 5 o ystyried canlyniadau'r ysgol dros y pum mlynedd diwethaf. Ni chyflawnodd yr un disgybl lefel 5 mewn un pwnc craidd (Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth) yn y tair blynedd diwethaf, ac eithrio'r Saesneg yn 2011.

Gan fod nifer y disgyblion mor fechan, nid yw'n deg cymharu cyflawniad y disgyblion sy'n derbyn cinio am ddim a chyflawniad gweddill y disgyblion. Dros gyfnod o amser mae'r merched yn cyflawni'n well na'r bechgyn yn gyffredinol yn y Cyfnod Sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, mae merched yn cyflawni'n well na'r bechgyn ac eithrio mewn mathemateg (ar lefel 4+).

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Holiaduron disgyblion

Cafwyd 37 ymateb gan ddisgyblion cyfnod allweddol 2.

Mae pob un o'r farn:

- bod yr ysgol yn eu haddysgu ynghylch sut i aros yn iach;
- bod yr athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.

Mae bron pob un o'r farn:

- eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol;
- eu bod yn gwybod pwy i siarad ag ef/hi os ydynt yn poeni neu'n gofidio;
- eu bod yn gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd;
- bod eu gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella'u gwaith yn yr ysgol; a
- bod digon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron iddyn nhw wneud eu gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o'r farn:

- eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a bod yr ysgol yn delio'n dda gydag unrhyw fwlio.

Mae llawer o'r farn:

- bod bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

Mae'r mwyafrif o'r farn:

- bod llawer o gyfleoedd yn yr ysgol iddynt gael ymarfer corff a bod plant eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu gwneud eu gwaith.

Mae ymatebion y disgyblion yn cymharu'r llai cadarnhaol nag ymatebion cyfartalog disgyblion ar draws Cymru ym mhob datganiad heblaw pedwar, sef bod yr ysgol yn eu haddysgu ynghylch sut i aros yn iach, bod yr athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd, eu bod yn gwybod pwy i siarad ag ef/hi os ydynt yn poeni neu'n gofidio a bod eu gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella'u gwaith yn yr ysgol.

Holiaduron Rhieni

O'r 32 o ymatebion a gafwyd gan rieni, mae'r rhan fwyaf o'r farn:

- eu bod yn fodlon gyda'r ysgol yn gyffredinol;
- bod eu plentyn yn hoffi'r ysgol;
- bod eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol;
- bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol;
- bod y gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae'r plant yn ei ddysgu yn yr ysgol;
- bod eu plant yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol;
- bod eu plentyn wedi derbyn cymorth i ymgartrefu'n dda wrth iddo ddechrau yn yr ysgol;
- bod eu plentyn wedi ei baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf;
- bod yr ysgol yn helpu eu plentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb; a
- bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Mae llawer o'r farn:

- y caiff eu plentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd;
- bod yr addysgu'n dda;
- bod staff yn disgwyl i'w plentyn weithio'n galed a gwneud ei orau;
- bod staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch; a
- eu bod yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.

Mae'r mwyafrif o'r farn:

- bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol;
- eu bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plentyn;
- eu bod yn deall y drefn ar gyfer delio â chwynion; a
- bod amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau ar gael.

Mae ymatebion y rhieni yn cymharu'n llai cadarnhaol nag ymatebion cyfartalog rhieni ar draws Cymru ym mhob datganiad ond tri, sef bod y gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae'r plant yn ei ddysgu yn yr ysgol, bod eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol a bod eu plentyn wedi ei baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf.

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Meinir Howells	Arolygydd Cofnodol
Terwyn Tomos	Arolygydd Tîm
Dylan Jones	Arolygydd Lleyg
Doris Edwards	Arolygydd Cymheiriaid
Gareth Jones	Enwebai'r Ysgol

Copiâu o'r adroddiad

Mae copiâu o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau – Cynradd

Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwylidig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarterli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.